# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

**RHAN 4**

GWEITHREDIAETHAU, AELODAU, SWYDDOGION A PHWYLLGORAU AWDURDODAU LLEOL

*Hawlogaeth aelodau i rannu swydd ac i absenoldeb teuluol*

**61 Absenoldeb teuluol ar gyfer aelodau o awdurdodau lleol**

(1) Mae Mesur 2011 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 24 (absenoldeb mamolaeth)—

(a) yn lle is-adran (2) rhodder—

“(2) Rhaid i reoliadau gynnwys darpariaeth ar gyfer penderfynu—

(a) i ba raddau y mae gan aelod hawl i absenoldeb mamolaeth mewn cysylltiad â phlentyn;

(b) pryd y caniateir cymryd absenoldeb mamolaeth.”;

(b) hepgorer is-adrannau (3) a (4).

(3) Yn adran 25 (absenoldeb newydd-anedig), hepgorer—

(a) is-adran (4);

(b) is-adran (6);

(c) is-adran (9);

(d) yn is-adran (10), y diffiniad o “wythnos”.

(4) Yn adran 26 (absenoldeb mabwysiadydd), hepgorer is-adran (3).

(5) Yn adran 27 (absenoldeb mabwysiadu newydd), hepgorer—

(a) is-adran (4);

(b) is-adran (6);

(c) is-adrannau (9) a (10).

(6) Yn adran 28 (absenoldeb rhiant), hepgorer is-adran (4).